

Dalen Wybodaeth Cyfranogiad

Arolwg Cenedlaethol Tystiolaeth ar gyfer Cydraddoldeb (EVENS): Cofnodi bywydau Lleiafrifoedd Ethnig a Chrefyddol mewn Cyfnod o Argyfwng

Dalen wybodaeth i Gyfranogwyr

Rydych wedi eich gwahodd i gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol Tystiolaeth ar gyfer Cydraddoldeb (EVENS). Cyn i chi benderfynu a ydych am gymryd rhan, mae'n bwysig eich bod yn deall pam bod yr ymchwil yn cael ei gynnal a beth fydd yn gynnwys. Cymerwch amser i ddarllen yr wybodaeth ganlynol yn ofalus cyn cymryd rhan ac mae croeso i chi ei drafod gydag eraill os dymunwch. Os hoffech chi ragor o wybodaeth neu eglurhad pellach, cysylltwch. Diolch am gymryd yr amser i ddarllen hyn.

Pwy fydd yn cyflawni'r ymchwil?

Bydd yr ymchwil yn cael ei chyflawni gan Ipsos MORI ar ran ymchwilwyr ym Mhrifysgol Manceinion, Prifysgol St Andrews a Phrifysgol Sussex.

Beth yw diben yr ymchwil?

Rydyn ni eisiau gweld sut mae'r pandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo yn effeithio ar bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Byddwn yn holi am sut mae gwahanol feysydd o'ch bywyd wedi eu heffeithio e.e. addysg, cyflogaeth a lles economaidd, tai, cymdeithasol, cyfranogiad gwleidyddol, iechyd a phrofiadau o hiliaeth a gwahaniaethu.

Pam ydw i wedi cael fy newis i gymryd rhan?

Mae gennym ddiddordeb mewn dysgu am eich profiadau o'r pandemig Covid-19. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn cofnodi profiadau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol. Mae'r arolwg hefyd yn cael ei gynnal ymysg y cyhoedd yn gyffredinol er mwyn i ni allu deall barnau gwahanol grwpiau o bobl.

A fydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu cyhoeddi?

Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr astudiaeth www.ethnicity.ac.uk/evensurvey ac ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol @EVENSURVEY (Twitter) ac @evensurvey (Instagram). Bydd casgliadau'r arolwg yn cael eu cyhoeddi a rhannu gyda defnyddwyr academiaidd trwy bapurau gweithredol ar-lein, erthyglau mewn cyfnodolion a adolygir gan gyfoedion, rhifynnau golygyddol, monograffau, seminarau a chyflwyniadau mewn cynadleddau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi deunyddiau briffio polisi, erthyglau cyfryngau a phostiadau blog yn seiliedig ar gasgliadau'r arolwg. Byddwn yn rhannu'r casgliadau gyda'r cyhoedd trwy weithdai, podlediadau a fideos.

Pwy sydd wedi adolygu'r prosiect ymchwil?

Mae'r Prosiect wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Manceinion [2021-10455-17768].

Pwy sy'n ariannu'r prosiect ymchwil?

Mae'r arolwg wedi ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).

Beth fyddai gofyn i mi ei wneud pe byddwn yn cymryd rhan?

Yn gyntaf fe ofynnir ychydig o gwestiynau i chi mewn arolwg cofrestru byr i wirio os ydych chi'n gymwys i gymryd rhan yn y prif arolwg. Os ydych chi'n gymwys, byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn arolwg ar-lein 30-munud, neu os byddai'n well gennych chi, cyfweiliad arolwg dros y ffôn am 40-munud, ynghylch eich profiadau yn ystod y pandemig Covid-19.

A fydda i'n cael fy nhalu am gymryd rhan?

Os ydych chi'n gymwys i gymryd rhan yn y prif arolwg ac yn mynd ymlaen i'w gwblhau'n llawn, byddwch yn derbyn tocyn anrheg am gwblhau'r arolwg.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i eisiau cymryd rhan neu os byddaf yn newid fy meddwl?

Chi sydd i benderfynu os ydych chi am gymryd rhan neu beidio. Os byddwch chi'n penderfynu cymryd rhan, byddwch yn gallu gweld y ddalen wybodaeth hon ar-lein trwy ei chyrru ar dudalen wybodaeth Ipsos MORI ([evenssurveyinfo.ipsos-mori.com](https://www.evenssurveyinfo.com)). Fe ofynnir i chi gydsynio i gymryd rhan ar-lein dros y ffôn (os byddwch chi'n cymryd rhan dros y ffôn, gall Ipsos MORI ddarllen y ddalen wybodaeth hon i chi yn llawn os bydd angen). Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, mae croeso i chi dynnu allan ar unrhyw bryd heb roi rheswm a heb anfantaes i chi'ch hun. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau diogelu data. Os byddwch chi'n penderfynu peidio cymryd rhan, does dim angen i chi wneud dim byd arall.

Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei gasglu amdana i?

Er mwyn cymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn, bydd Ipsos MORI yn gofyn i chi am wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi, a elwir yn "gwybodaeth bersonol adnabyddadwy". Yn benodol, fe'ch holir am eich rhyw, oed, ethnigrwydd, crefydd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, gwlad enedigol a chod post.

Ar ddiwedd yr arolwg bydd Ipsos MORI hefyd yn gofyn, gyda'ch caniatâd, am fanylion cyswllt er mwyn anfon tocyn anrheg i chi, ac eto gyda'ch caniatâd i rannu manylion cyswllt gyda ni (Prifysgol Manceinion) fel ein bod yn gallu eich gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaethau yn y dyfodol trwy e-bost, post neu neges destun.

Dan ba sail gyfreithiol ydych chi'n casglu'r wybodaeth hon?

Mae Prifysgol Manceinion ac Ipsos MORI yn casglu a storio'r wybodaeth bersonol adnabyddadwy hon yn unol â chyfraith diogelu data sy'n diogelu eich hawliau. Mae'r rhain yn datgan bod yn rhaid i ni gael sail gyfreithiol (rheswm penodol) dros gasglu eich data. Ar gyfer yr astudiaeth hon, y rheswm pam fod Ipsos MORI yn casglu'r data yw "cydsyniad i gymryd rhan yn yr ymchwil" a "cydsyniad i basio eich data ymlaen i Brifysgol Manceinion". Pan fydd Prifysgol Manceinion yn dadansoddi'r data, y rheswm penodol yw ei fod yn "dasg er lles y cyhoedd" ac "yn broses angenrheidiol i ddibenion ymchwil".

Beth yw fy hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth y byddwch yn ei chasglu amdanaf?

Mae gennych chi nifer o hawliau dan gyfraith diogelu data parthed eich gwybodaeth bersonol. Mae gennych chi'r hawl i ofyn am fynediad i unrhyw ddata personol, i dynnu eich cydsyniad yn ôl neu i wrthwynebu i brosesu eich data personol a gedwir gan Ipsos MORI cyn 31 Gorffennaf 2021 (byddant yn cadw eich data dim ond am ba bynnag hyd fydd angen i gyflawni eu rôl yn yr astudiaeth hon - i anfon dolenni astudiaeth atoch, tocynnau anrheg ac i drosglwyddo data i Brifysgol Manceinion). Gallwch wrthwynebu i brosesu atebion arolwg a ddarparwch ar unrhyw adeg cyn bo'r data yn cael ei brosesu i'w gyflenwi gan Ipsos MORI i Brifysgol Manceinion ar 17 Mai 2021. Ar gyfer manylion cyswllt a gedwir gan Brifysgol Manceinion, gallwch dynnu eich cydsyniad i gadw'r rhain yn ôl cyn 31 Gorffennaf 2026, yna byddant yn cael eu dinistrio, oni bai eu bod yn cael eu dinistrio'n gynharach os bydd Prifysgol Manceinion yn penderfynu nad oes angen eu cadw am y cyfnod dargadw llawn e.e. os bydd ymchwil yn y dyfodol yn cael ei gwblhau yn gynt na'r disgwyl.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am eich gwahanol hawliau neu sut fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i sicrhau ein bod yn dilyn y gyfraith, cymerwch olwg ar [Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymchwil](#) Prifysgol Manceinion a Hysbysiad Preifatrwydd Ipsos MORI sydd ar gael ar dudalen wybodaeth yr arolwg: evensurveyinfo.ipsos-mori.com

A fydd fy nghyfranogiad yn yr astudiaeth yn gyfrinachol a fy ngwybodaeth bersonol adnabyddadwy wedi ei diogelu?

Bydd. Yr unig eithriad i hyn yw os byddwch yn datgelu gwybodaeth i nodi eich bod yn bwriadu peri niwed i chi'ch hun neu eraill; fe drafodir hyn gyda chi ac efallai y bydd angen cymryd camau pellach - fel cysylltu â'r heddlu, ambiwlans neu wasanaethau cymdeithasol.

Yn unol â chyfraith diogelu data, Prifysgol Manceinion ac Ipsos MORI yw'r Rheolwyr Data ar gyfer y prosiect hwn. Golyga hyn ein bod yn gyfrifol am sicrhau y cedwir eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn gyfrinachol ac y'i defnyddir yn y modd yr ydych wedi cael gwybod y bydd yn cael ei defnyddio yn unig. Mae'r holl ymchwilwyr wedi eu hyfforddi gan ystyried hyn, a byddwn yn gofalu am eich data yn y dulliau canlynol.

Bydd eich manylion cyswllt a chofnod cydsyniad yn cael eu storio ar wahân i'ch atebion unigol a ddim ond yn hygyrch i dîm yr astudiaeth yn Ipsos MORI ac ymchwilwyr penodedig ym Mhrifysgol Manceinion. Os ydych chi'n cytuno i Brifysgol Manceinion ailgysylltu â chi ynghylch ymchwil yn y dyfodol ar bynciau tebyg, bydd ymchwilwyr y Brifysgol yn gallu cysylltu'r ffeiliau er mwyn eich gwahodd i gymryd rhan. Gallwch ofyn i gael eich tynnu o'r gronfa ddata ar unrhyw adeg.

Bydd eich manylion cyswllt ac atebion unigol yn cael eu storio ar wahân, yn gyntaf gan Ipsos MORI yn defnyddio eu gweinyddwyr data diogel sydd wedi eu hamgryptio (dim ond ymchwilwyr penodedig yn Ipsos MORI sydd â mynediad i'ch data tra bydd wedi ei storio gyda nhw). Bydd Ipsos MORI yn dinistrio eu cofnod o'ch manylion cyswllt unwaith bydd y data wedi ei drosglwyddo i'r ymchwilwyr ym Mhrifysgol Manceinion, o fewn tri mis o ddiwedd y prosiect.

Unwaith y bydd manylion cyswllt ac atebion unigol wedi eu trosglwyddo i'r ymchwilwyr ym Mhrifysgol Manceinion, byddant yn cael eu storio ar wahân ar weinyddwyr ymchwil diogel iawn yn y brifysgol a'u cadw am hyd at bum mlynedd. Wedi hyn, bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dinistrio a data'r arolwg yn cael ei wneud yn gwbl ddiennw.

Os byddwch chi'n cwblhau'r arolwg dros y ffôn, efallai y bydd y cyfweiliad arolwg dros y ffôn yn cael ei recordio i ddibenion rheoli ansawdd. Bydd recordiadau sain o'r cyfweiliad ffôn a storir gan Ipsos MORI yn cael eu dileu o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod casglu data.

Bydd set data cwbl ddiennw hefyd yn cael ei adneuo gyda Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig ac ar gael i ymchwilyr eraill ei ddefnyddio. Ni fydd modd i unrhyw un eich adnabod yn y data hwn nac mewn unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir o'r arolwg hwn.

Sylwer hefyd y gallai unigolion o Brifysgol Manceinion neu awdurdodau rheoleiddio fod angen edrych ar y data a gesglir ar gyfer yr astudiaeth hon i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad. Gallai hyn gynnwys edrych ar ddata adnabyddadwy. Bydd gan bob unigolyn sy'n ymwneud ag archwilio a monitro'r astudiaeth ddyletswydd gaeth o ran cyfrinachedd i chi fel cyfranogwr ymchwil.

Beth os ydych chi am wneud cwyn?

Os hoffech chi gyfeirio cwyn at aelodau o'r tîm ymchwil, cysylltwch â Dr Nissa Finney (Nissa.Finney@st-andrews.ac.uk) neu'r Athro James Nazroo (james.nazroo@manchester.ac.uk).

Os hoffech chi wneud cwyn ffurfiol i rywun annibynnol o'r tîm ymchwil neu os nad ydych chi'n fodlon gyda'r ymatebion a gawsoch gan yr ymchwilyr yn yr achos cyntaf, cysylltwch â:

The Research Ethics Manager, Research Office, Christie Building, The University of Manchester, Oxford Road, Manceinion, M13 9PL, drwy e-bostio: research.complaints@manchester.ac.uk neu trwy ffonio 0161 275 2674.

Os hoffech chi gysylltu â ni ynghylch eich hawliau diogelu data, anfonwch e-bost at dataprotection@manchester.ac.uk neu ysgrifennwch at The Information Governance Office, Christie Building, The University of Manchester, Oxford Road, M13 9PL yn y Brifysgol a byddwn yn eich tywys trwy'r broses o arfer eich hawliau.

Mae gennych chi hefyd hawl i gwyno i [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch cwynion yn ymwneud â'ch gwybodaeth bersonol adnabyddadwy](https://www.manchester.ac.uk/research-ethics) Ffôn 0303 123 1113

Manylion Cyswilt

Os hoffech gymryd rhan yn yr astudiaeth, gallwch gael mynediad i'r arolwg cofrestru yma: <https://surveys.ipsosinteractive.com/surveys/?p=jZt9VfdUz0lpKjKSUVU19dx7XQuIvdp%2bHMIFDym5IOKg3UL40L4YcPmzT3Zhgs2XRRcsH3f9aYbvF9XZJqv9Rxf%2f2dlVd2Xvs3qZdmM5qxS4%3d&id=partxtest>

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr astudiaeth, gallwch fynd i dudalen wybodaeth benodedig Ipsos MORI:

evenssurveyinfo.ipsos-mori.com

Os na allwch chi weld yr atebion i'ch ymholiadau ar dudalen wybodaeth Ipsos MORI neu os yr hoffech chi gymryd rhan dros y ffôn, yna gallwch gysylltu ag Ipsos MORI yn uniongyrchol neu'n defnyddio'r manylion cyswllt isod:

- Ar gyfer unrhyw ymholiadau atodol ble nad oes ateb ar dudalen wybodaeth Ipsos MORI, anfonwch e-bost at: evenssurvey@ipsos-mori.com
- I gymryd rhan neu i ofyn am ragor o wybodaeth dros y ffôn **yn Saesneg** ffoniwch y rhif rhadffôn canlynol: **0808 1296800** (gwasanaeth post llais yw hyn, gadewch eich manylion cyswllt a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl naill ai i helpu ateb eich ymholiad neu i gynnal yr arolwg cofrestru i weld os ydych chi'n gymwys ar gyfer y prif arolwg).
- I gymryd rhan neu i ofyn am ragor o wybodaeth dros y ffôn **yn un o'r ieithoedd a nodir isod**, ffoniwch y rhifau rhadffôn canlynol (gwasanaeth adalw post llais yw hyn, gadewch eich manylion cyswllt a bydd rhywun yn eich ffonio'n ôl naill ai i helpu ateb eich ymholiad neu i gynnal yr arolwg cofrestru i weld os ydych chi'n gymwys ar gyfer y prif arolwg)

Cymraeg / Welsh	Rhif Rhadffôn
Arabeg	0800 470 2983
Bengaleg	0800 470 2965
Tsieinëeg	0800 470 2986
Gwjarati	0800 470 2989
Pwyleg	0800 470 2987
Portiwgaleg	0800 470 2977
Pwnjabeg: Gwrnwkhî	0800 470 2978
Pwnjabî: Shahmwkhî	0800 470 2979
Rwmaneg	0800 470 2980
Somalieg	0800 470 2981
Tyrceg	0800 470 2982
Wrdw	0800 470 2984
Cymraeg	0800 470 2985

Mae yna hefyd nifer o sefydliadau a restrir yma y gallwch gysylltu â nhw am gefnogaeth.

AGE UK

Mae llinell gyngor Age UK yn wasanaeth ffôn cenedlaethol am ddim, cyfrinachol ar gyfer pobl hŷn, eu teuluoedd, eu ffrindiau, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Bydd y tîm yn rhoi gwybodaeth i chi sy'n ddibynadwy ac yn gyfredol ac yn eich helpu i gyrchu'r cyngor rydych ei angen.

Gellir cysylltu â'r gwasanaeth cyngori am faterion yn ymwneud ag arian, gofal, iechyd, tai neu unrhyw bwnc cyngori arall unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn, rhwng 8am a 7pm.

Ffôn: 0800 055 6112

Gwefan: <https://www.ageuk.org.uk/>

Cyngor ar Bopeth

Rhwydwaith o elusennau annibynnol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol ar-lein, dros y ffôn ac yn bersonol, am ddim. Gallant gynnig cyngor ar fudd-daliadau, gwaith, dyledion, tai, teulu, mewnfudo ac iechyd.

Adviceline (Lloegr): 03444 111 444

Adviceline (Cymru): 03444 77 20 20

Adviceline (Yr Alban): 0800 028 1456

Mae'r holl linellau ar gael 9am hyd 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Gwefan: <https://www.citizensadvice.org.uk/> (Cymru a Lloegr)

Gwefan: <https://www.cas.org.uk/> (Yr Alban)

Mae sgwrsio yn eich galluogi i siarad â chynghorydd cymwysedig ar-lein. Gallwch:

- Siarad â nhw am broblem dyledion. <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/contact-us/contact-us/chat-service-money-and-debt/> Mae cymorth ar gael rhwng 8am a 7pm fel arfer, o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Siarad â nhw am unrhyw fath o broblem arall <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/contact-us/contact-us/web-chat-service/> Mae cymorth ar gael rhwng 10am and 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener

Cymorth Cydfuddiannol Covid-19

Mae yna grwpiau lleol yn eich ardal i gefnogi cymunedau sy'n wynebu anhawster oherwydd Covid-19.

Ewch i: <https://covidmutualaid.org/> a rhoi'ch ardal neu god post i leoli eich grŵp cefnogaeth agosaf.

Cruse Bereavement

Mae Gwirfoddolwyr profedigaeth hyfforddedig yn cynnal Llinell Gymorth Genedlaethol Rhadffôn Cruse Bereavement Care, gan gynnig cefnogaeth emosiynol i unrhyw un sydd wedi ei effeithio gan brofedigaeth.

Ffôn: 0844 477 9400 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am hyd 5pm)

Gwefan: <https://www.cruse.org.uk>

Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

Mae gan yr EASS Llinell Gymorth i roi gwybodaeth a chanllaw ar wahaniaethu a materion hawliau dynol. Mae'r gwasanaeth am ddim ac yn gwbl hygyrch dros y ffôn, trwy e-bost, ffacs, post neu ddolen fideo ar gyfer y rhai sydd eisiau defnyddio BSL ac mae'n cynnwys mynediad i wasanaethau eirioli ar gyfer y rhai salwch iechyd meddwl a phobl gydag anabledd dysgu. Bydd cyfleusterau sgwrsio yn cael eu lansio'n fuan.

Amseroedd Agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 9am-7pm a dydd Sadwrn 10am-2pm.

Llinell Gyngor: 0808 800 0082

Ffôn testun: 0808 800 0084

Gwefan: <http://www.equalityadvisoryservice.com/>

MIND

Mae MIND yn ymgyrchu i ddarparu cyngor a chefnogaeth i rymuso unrhyw un sydd â phroblem iechyd meddwl. Maent yn ymgyrchu i wella gwasanaethau, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dealltwriaeth.

Gallwch gysylltu â MIND ar eu Llinell Wybodaeth, 9am tan 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener (ar wahân i Wyliau Banc): 0300 123 3393

E-bost: info@mind.org.uk

Gwefan: <https://www.mind.org.uk/>

Neges Destun: 86463

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Mae ganddynt hanes profedig o ddarparu cyngor arbenigol ar ddyledion ers dros 25 o flynyddoedd. Maent yn addo darparu cyngorwyr arbenigol ar ddyledion sy'n gefnogol ac wedi eu hyfforddi i safon uchel.

Ffoniwch i gael cyngor am ddim ar ddyledion ar 0808 808 4000 dydd Llun i ddydd Gwener, 9am – 8pm a dydd Sadwrn 9.30am – 1pm

Gwefan: <https://www.nationaldebtline.org/>

Refuge

Llinell gymorth 24 awr ar gyfer unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig:

Ffôn: 0808 2000 247

Gwefan: <https://www.refuge.org.uk/>

Mae ganddynt hefyd amrywiaeth o adnoddau digidol ar gael ar www.refuge.org.uk a www.nationaldahelpine.org.uk

Y Samariaid

Cymorth cyfrinachol i bobl sy'n profi teimladau o gyfyngder neu anobaith:

Ffôn: 116 123 (llinell gymorth 24 awr am ddim)

E-bost: jo@samaritans.org

Gwefan: www.samaritans.org.uk

Stop Hate UK

Mae Stop Hate UK yn elusen sy'n darparu cefnogaeth annibynnol a chyfrinachol i bobl sydd wedi eu heffeithio gan Droseddau Casineb. Maent yn darparu gwasanaethau adrodd cyfrinachol ar Droseddau Casineb mewn amrywiol ardaloedd o'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys llinell gymorth 24 awr. Gwiriwch eu rhestr o ardaloedd yn ofalus cyn ffonio.

Gwefan: www.stophateuk.org

Llinell gymorth 24-awr: 0800 138 1625

Ffacs: 0113 341 0396

Neges destun: 07717 989 025

E-bost: talk@stophateuk.org

Cymorth i Ddiodefwr

Os ydych chi wedi eich effeithio gan drosedd, gallant roi i chi'r cymorth rydych ei angen i symud ymlaen. Mae'r gwasanaethau am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael i bawb yng Nghymru, yr Alban neu Lloegr waeth os yw'r drosedd wedi cael ei riportio ai peidio neu pa mor hir yn ôl y digwyddodd.

Ffoniwch y llinell gymorth am ddim ar

08 08 16 89 111 (Cymru a Lloegr, 24 awr y dydd)

0800 160 1985 (Yr Alban, 8am hyd 8pm)

Anfonwch e-bost i'r gwasanaeth yn defnyddio'r ffurflen ar-lein ar y wefan:

<https://www.victimsupport.org.uk/> (Cymru a Lloegr)

<https://victimsupport.scot/> (Yr Alban)

Diolch am eich amser.